



Pwll Gwanhau Teras Bronallt Uchaf

Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin i 36 eiddo preswyl a 3 eiddo masnachol yn ardal Abercwmboi.

Crynodeb o'r Cynllun	
Ardal Risg Llifogydd Strategol	Canol Cwm Cynon 1
Lleoliad	Teras Bronallt, Abercwmboi
Eiddo sy'n elwa	36 eiddo preswyl a 3 eiddo masnachol
Math o gynllun	Cynllun Lliniaru Llifogydd Cymhleth
Cost	£770,700
Contractwr	Hammonds Construction
Statws	Wedi'i gwblhau
Dyddiad cwblhau'r cynllun	Mawrth 2023
Tarddiad Cyllid	Grant Cyfalaf FCERM Llywodraeth Cymru



Pwll Gwanhau – Cynllun Lliniaru Llifogydd Teras Bronallt Uchaf, Abercwmboi

Cefndir y Cynllun

Mae Teras Bronallt yn Abercwmboi wedi'i nodi'n ardal sydd â pherygl llifogydd dŵr wyneb uchel a chyrsiau dŵr cyffredin, yn seiliedig ar fapiau Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae ardal Teras Bronallt wedi bod yn destun sawl digwyddiad llifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol oedd llifogydd ar 15 ac 16 Chwefror 2020 yn dilyn Storm Dennis, lle aeth dŵr i mewn i 28 eiddo preswyl gyda 40 eiddo arall yn dioddef llifogydd allanol.

Mae cymuned Abercwmboi hefyd wedi'i osod yn safle 130 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd cwrs dŵr cyffredin a dŵr wyneb ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR), a ddatblygwyd gan CNC i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol Cymru gyfan.

Disgrifiad o'r Cynllun

Prif nod y Cynllun Lliniaru Llifogydd yw lleihau llif dŵr storm o'r dalgylch er mwyn lleihau'r perygl o orlwytho'r systemau draenio trefol islaw ac achosi llifogydd i eiddo a'r briffordd.

Roedd y prosiect yn cynnwys creu **Basn Gwanhau dalgylch uwch**, wedi'i gynllunio i **leihau llifoedd dŵr brig** yn ystod digwyddiadau tywydd tuag at y cwlfernt presennol i lawr yr cwrs dŵr. Roedd hefyd yn cynnwys **basn rheoli malurion** i leihau'r potensial o falurion yn rhwystro'r strwythur cwlfernt i lawr y cwrs dŵr.

Mae'r gwaith yn darparu **gwell gwerth amwynderau** o fewn yr ardal wlyptir, gan ddarparu **amgylchedd naturiol rhyngweithiol** sy'n addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ac yn gwella **bioamrywiaeth yr ardal drwy ailgyflwyno amgylchedd naturiol ac amrywiol ar gyfer ffawna a phlanhigion lleol**. Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys monitro telemetreg y Basn Gwanhau, gan alluogi'r Cyngor i fonitro cyflwr y basn a chanfod unrhyw rwystrau posibl i'r isadeiledd yn gynnar.

Buddion y Cynllun



Lleihau perygl llifogydd ar gyfer **39 eiddo**




Technegau **Rheoli Llifogydd yn Naturiol**



Ailgyflwyno amgylchedd naturiol a bioamrywiol



Storio oddeutu **75m³** o falurion a **1230m³** o ddŵr



Monitro'r Basn Gwanhau gyda system **TCC**



Safon amddiffyn o **C100 ynghyd â lwfans newid yn yr hinsawdd o 40%** Amgylchedd